Llais y Dysgwr Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Briff ymchwil 03

## Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o nodiadau briffio sy'n trin a thrafod themâu allweddol sydd wedi codi yn arolwg Llais y Dysgwr Cymru Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi crynodeb o sylwadau cadarnhaol a negyddol y mae dysgwyr wedi'u mynegi ynghyd â negeseuon sy'n deillio o ymchwil ym maes gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Rydym wedi defnyddio hwn i awgrymu pwyntiau gweithredu posibl i ddarparwyr eu hystyried, ac adnoddau pellach i'r rheini sydd â diddordeb mewn archwilio'r pwnc yn fanylach.

## Beth ddywedodd y dysgwyr?

- Roedd llawer o'r dysgwyr yn canmol ansawdd y cymorth bugeiliol yr oeddynt yn ei gael gan eu darparwr. Roeddent yn dweud bod y staff yn gyfeillgar, yn hawdd siarad â nhw, yn amyneddgar ac yn barod i ateb cwestiynau.
- Roedd eraill, yn enwedig ym maes addysg bellach (AB) a dysgu seiliedig ar waith, am gael rhagor o gyngor ar lwybrau ar gyfer camu ymlaen i addysg bellach neu i waith a chymorth â gwneud ceisiadau i brifysgolion (e.e. datganiadau personol ac ymarfer cyfweliad). I'r gwrthwyneb, roedd rhai myfyrwyr am gael cydnabyddiaeth i'r ffaith nad yw pawb eisiau mynd ymlaen i brifysgol.
- Roedd dysgwyr ym mhob sector yn teimlo nad oedd y prosbectws bob amser yn rhoi digon o wybodaeth glir i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus, gan ddweud bod angen iddynt gael gwybodaeth am bethau megis dyddiadau tymhorau, strwythur y cwrs, cymhwyster, lleoliad, llwyth gwaith, a chost deunyddiau. Hefyd, nid oedd nifer o fyfyrwyr wedi cael gwybod y byddent yn cael eu cofrestru ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn ogystal â'r prif bwnc roeddynt wedi dewis cymhwyso ynddo (AB).
- Ar ôl cofrestru roedd rhai dysgwyr ym mhob sector wedi cael problemau gyda'r wybodaeth a gawsant cyn y cwrs, oherwydd nad oedd yn adlewyrchiad cywir o'r dyddiadau dechrau na'r lleoliad. Mewn rhai achosion roedd hyn yn golygu bod rhai dysgwyr wedi colli dosbarthiadau.
- Roedd rhai dysgwyr ym mhob sector yn dweud y byddent yn gwerthfawrogi 'map' yn nodi'r pynciau oedd i ddod a'r cynnydd a wnaed hyd yma, er mwyn iddynt baratoi a chynllunio eu hamser yn well.
- Roedd dysgwyr Cymraeg i Oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned yn arbennig yn teimlo y gallai darparwyr wneud mwy o ran hysbysebu cyrsiau a chyfleoedd oedd ar gael. Dim ond trwy eu ffrindiau yr oedd llawer o'r dysgwyr wedi clywed am y cyfleoedd hyn.
- Ym maes AB a dysgu seiliedig ar waith roedd rhai dysgwyr am gael mwy o gymorth yng nghyswllt canfod a threfnu profiad gwaith, lleoliadau a phrentisiaethau.

# Strategaethau effeithiol ar gyfer cefnogi dysgwyr

Codwyd y strategaethau isod o ystod o gyhoeddiadau'n ymwneud â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sydd, yn eu tro, yn seiliedig ar waith ymchwil helaeth i 'beth sy'n gweithio' mewn lleoliadau ôl-16.
I gael rhagor o wybodaeth am ddeunyddiau darllen pellach, ewch i'r adran 'Adnoddau' ar ddiwedd y nodyn briffio hwn.

**Gwybodaeth cyn mynediad**

Roedd adborth dysgwyr ynghylch gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cyn mynediad yn canolbwyntio ar brinder gwybodaeth am y cwrs, megis dyddiadau dechrau, cynnwys a chost. Mae Ymchwil a gynhaliwyd gan CFE[1] yn pwysleisio mor bwysig yw gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol o ansawdd da. Mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gwael yn gallu effeithio ar gadw dysgwyr, eu cyflawniad a'u cynnydd, sydd, yn ei dro, yn gallu effeithio ar y cyflenwad sgiliau sydd ar gael i'r farchnad lafur.

"Dydyn nhw ddim yn rhoi digon o wybodaeth am beth fydd y cwrs yn ei gynnwys ac os ydi o'n addas ar gyfer eich lefel chi".

Nododd **Yr Asiantaeth Dysgu a Datblygu Sgiliau** fod gwybodaeth yn aml yn cael ei hepgor o'r prosbectws ac o daflenni am y cyrsiau, er enghraifft:

- gwybodaeth gyflawn am yr ymrwymiad ariannol roedd y cwrs yn gofyn amdano, e.e. er mwyn prynu adnoddau a mynd ar dripiau, y consesiynau oedd ar gael ac ati.
- y cymorth a'r gefnogaeth oedd ar gael, gan gynnwys:
  - ariannol
  - cludiant
  - gofal plant
  - caledi
- ai cwrs rhan-amser/amser llawn oedd y cwrs dan sylw a nifer y dyddiau cyswllt
- nifer yr oriau dan arweiniad
- dyddiadau dechrau a hyd y rhaglen
- lefel y rhaglen
- lleoliad/safle'r rhaglen
- modd astudio
- cynnwys y cwrs a'r dewisiadau, gan gynnwys unrhyw ofyniad i ail-astudio sgiliau hanfodol, Bagloriaeth Cymru
- llwyth gwaith
- faint o ymroddiad oedd ei angen
- llwybrau datblygu.

*Wedi'i addasu o Making the best match: Improving the quality of pre-course information, advice and guidance*[2]
(Yr Asiantaeth Dysgu a Datblygu Sgiliau, 2002)

Roedd dysgwyr eraill yn dweud mor anodd ydoedd i gael gwybodaeth am gyrsiau yn y lle cyntaf. Canfu gwaith ymchwil gan Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA)[3] fod chwarter y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld wedi dweud y byddent wedi gwneud rhywbeth gwahanol pe bai ganddynt wybodaeth am yr holl ddewisiadau oedd ar gael. Nid oedd bron i hanner yn gwybod am y prentisiaethau oedd ar gael yn eu hardal. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos mor bwysig yw hysbysebu mewn fformatau atyniadol a hygyrch er mwyn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl.

"Dyddiau agored ar gyfer yr holl gyrsiau addysg i oedolion sydd ar gael yn cael eu hysbysebu'n dda. Yr unig ffordd y des i o hyd i'r cwrs yma oedd bod rhywun arall oedd â thaflen wedi rhoi un i mi. Doeddwn i ddim yn gwybod bod y cwrs yn bodoli."

Mae'r profiad hwn yn cael ei ategu yn Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2014/15[4] a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n nodi, at ei gilydd, nad yw'r cyngor a'r arweiniad mae dysgwyr yn ei gael gydol eu haddysg yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth dda o'r farchnad lafur a'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o ddysgwyr yn sylweddoli mor bwysig yw ystyried cyfleoedd gwaith wrth ddewis y cwrs maent am ei astudio yn y coleg.

Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr[5] yn awgrymu siarad â dysgwyr yn eu hiaith eu hunain drwy'r cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o siarad â dysgwyr heb fynd drwy'r ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn cael darlun llawn o'r hyn sydd ar gael iddynt. Ymysg dulliau dibynadwy eraill y gellir eu defnyddio mae dyddiau blasu, ffeiriau gyrfaoedd, hysbysebu mewn meddygfeydd, helpu darpar ddysgwyr i gyfarfod â chyn-ddysgwyr neu ddysgwyr presennol er mwyn iddynt glywed o lygad y ffynnon sut beth yw dysgu mewn coleg neu mewn lleoliad gwaith.

**Herio stereoteipiau**

Nid rhoi gwybodaeth ffeithiol gywir yn unig yw pwrpas gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, ond mae hefyd yn ymwneud â thrin a thrafod a herio dyheadau a chredoau dysgwyr a'u barn amdanynt eu hunain. Mae ymchwil gan CFE[6] wedi dangos nad diffyg ymwybyddiaeth yw un o'r prif resymau pam nad yw dysgwyr yn manteisio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad, ond y ffaith nad ydynt yn meddwl bod arnynt ei angen. Efallai bod hynny'n wir, ond mae canlyniadau penderfyniadau anwybodus yn bellgyrhaeddol. Mae pethau'n dylanwadu ar ein dyheadau, y pynciau rydym yn eu dewis a'r gyrfaoedd y mae gennym ddiddordeb ynddynt yn gynnar iawn yn ein hoes ac maent yn aml yn gallu bod yn ddylanwadau stereoteipaidd sy'n cyfyngu arnom.

Canfu'r Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach RSA[7] nad yw llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r amrywiaeth o swyddi sydd ar gael; bod eu dealltwriaeth yn gallu bod yn gyfyngedig i'r swyddi mwyaf amlwg megis y rheini sy'n cael eu gweld yn aml ar y teledu, e.e. bargyfreithiwr, meddyg, milfeddyg, swyddog heddlu. O ganlyniad, efallai nad eu gallu sy'n pennu eu dyheadau. Felly mae angen i wybodaeth, cyngor ac arweiniad herio dewisiadau dysgwyr a'u hannog i archwilio ystod ehangach o ddewisiadau. Serch hynny, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[8] yn rhybuddio na ddylid annog meddylfryd 'ewch amdani!'; oni bai bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad gwybodus gall hynny godi gobeithion dysgwyr yn ofer sydd, yn y pen draw, yn gallu achosi iddynt ymddieithrio rhag dysgu.

> "Rydw i'n credu y gallai'r coleg weithiau roi cyngor gwell wrth gynghori pobl ynghylch y cwrs y dylent ei ddewis os ydynt am ddilyn eu breuddwyd o ran gyrfa. Mae annog rhywun ar gam weithiau yn gallu arwain at fethu."

Mae angen i gynghorwyr fod yn ymwybodol o'u rhagfarnau diarwybod eu hunain. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[9] yn awgrymu, er mai ychydig o bobl sydd heb unrhyw ddyheadau, mae'n bosibl, er enghraifft, y bydd gan y rheini oedd â chyflawniad isel o'r blaen flaenoriaethau sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Rôl y cynghorydd yw dod â'r materion hyn i'r amlwg a helpu'r dysgwr i ddod o hyd i ddewisiadau addas. Er enghraifft, canfu'r SCYA[10] fod y rheini sy'n gadael gofal, neu bobl â phlant ifanc, yn fwy tebygol o ymgysylltu â llwybr sy'n seiliedig ar waith os oes angen iddynt ddechrau ennill cyflog yn syth.

**Data**

Mewn astudiaeth cylch gwaith gan Estyn i wasanaethau cymorth i ddysgwyr[11] nodwyd y rôl bwysig y mae data yn gallu ei chwarae gydol y daith ddysgu. Drwy sefydlu protocolau rhannu data ag ysgolion, gellir sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at wybodaeth bwysig sy'n gallu eu helpu i asesu pa mor addas yw dewisiadau dysgwyr adeg cofrestru. Drwy edrych ar berfformiad a phresenoldeb yn y gorffennol, maent yn helpu dysgwyr i bwyso a mesur mewn modd gwrthrychol pa mor addas yw eu dewisiadau.

Tra bo dysgwyr yn dysgu, gall data perfformiad, cynnydd a phresenoldeb amlygu'r rheini sydd mewn perygl o roi'r gorau iddi cyn gorffen er mwyn i ddarparwyr drefnu cymorth ychwanegol. Dylid rhannu'r data hyn hefyd â'r dysgwyr eu hunain, i'w hannog i gymryd rheolaeth dros eu dysgu – mae gweld mor bell maent wedi dod yn gallu bod yn ysgogydd cryf.

**Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU)**

Drwy eu cysylltu â data, mae CDU yn ddefnyddiol iawn o ran helpu dysgwyr i gymryd rheolaeth dros eu dysgu drwy ddod yn bartneriaid gweithgar a brwdfrydig yn eu dysgu. Dylai CDU fod yn fap personol a gweithredol sy'n llywio taith y dysgwr drwy nodi'r adnoddau, y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael iddynt i'w helpu ar eu ffordd.

Mae ymchwil[12] gan CfBT a Campaign for Learning wedi dangos bod annog dysgwyr i gymryd rheolaeth dros eu dysgu fel hyn yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr am oes. Yn nodweddiadol, mae gan ddysgwyr gydol oes amrediad o sgiliau sy'n cynnwys y gallu i drefnu eu hunain, cyfathrebu, gwaith tîm, pwyso a mesur a hunanymwybyddiaeth, pob un ohonynt yn sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Po gryfaf yw sgiliau dysgwyr yn y meysydd hyn, y mwyaf tebygol ydynt o allu gwneud dewisiadau effeithiol a gwybodus gyda chyn lleied â phosibl o ymyrraeth wyneb yn wyneb.

**Cyfalaf cymdeithasol**

Canfu RSA[13] nad yw dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cael mynediad i'r un rhwydweithiau cymdeithasol â'u cyfoedion, sy'n ei gwneud yn anos iddynt gael profiad gwaith na'r math iawn o gefnogaeth bersonol. Mae elusennau cyfalaf cymdeithasol yn gallu helpu i 'wasgaru' cyfalaf cymdeithasol drwy baru dysgwyr â mentoriaid addas y maent yn gallu uniaethu â nhw. Mae rhestr o elusennau cyfalaf cymdeithasol isod.

- Mae Future First[14] - yn helpu ysgolion a cholegau i ddefnyddio profiad a sgiliau eu cyn-fyfyrwyr drwy gymunedau alumni.
- Mae Menter yr Ifanc[15] yn elusen addysg busnes a menter sy'n helpu pobl ifanc i ddysgu am fusnes a byd gwaith yn y dosbarth, dan arweiniad rhwydwaith o wirfoddolwyr o amrywiaeth o gwmnïau.
- Mae Brightside[16] yn elusen sy'n helpu pobl ifanc i gael mynediad i addysg a llwybrau gyrfa efallai nad oeddynt yn credu oedd ar gael iddynt.
- Mae Horsesmouth[17] yn rhwydwaith cymdeithasol ar gyfer mentora anffurfiol.
- Mae STEMNET[18] yn gweithio ag ysgolion, colegau a chyflogwyr STEM i alluogi pobl ifanc o bob cefndir a gallu i gyfarfod â modelau rôl sy'n ysbrydoli, i ddeall ffyrdd o ddefnyddio pynciau STEM mewn sefyllfaoedd go iawn a chael profiad ymarferol o weithgareddau STEM sy'n ysgogi ac yn ysbrydoli, ac sy'n dod â chyfleoedd dysgu a gyrfa yn fyw.

**Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfa**

Mae ymchwil gan CFE[19] yn nodi mai ychydig iawn o ddysgwyr sy'n dibynnu ar un ffynhonnell o wybodaeth, cyngor ac arweiniad. Yn hytrach, maent yn defnyddio amryw o ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol. Mae ffynonellau anffurfiol (er enghraifft, rhieni/gofalwyr, ffrindiau, tiwtoriaid ac aseswyr, y cyfryngau) yn tueddu i gael mwy o ddylanwad.

O ddewis, byddai'n well gan y mwyafrif o ddysgwyr, a dysgwyr ifanc yn arbennig, gael cymorth wyneb yn wyneb. Mae hyn yn hanfodol bwysig ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth, megis dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, ond oes angen hyn ar bob dysgwr mewn gwirionedd. Yn hytrach dylid eu cefnogi a'u grymuso drwy raglenni dysgu ar gyfer gyrfa integredig ac ystyrlon (gweler 'Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru[20]) i wneud penderfyniadau effeithiol a gwybodus am fywyd, dysgu a gwaith.

Canfu Ofsted[21] mai nodwedd bwysig o addysgu rhagorol mewn AB oedd cynnwys cyflogwyr yn y gwaith o gynllunio rhaglenni dysgu a'u rhoi ar waith. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y sgiliau, yr wybodaeth a'r agweddau sydd eu hangen i sicrhau gwaith ac i aros mewn gwaith yn y dyfodol. Yn ei strategaeth ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, mae'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd[22] yn awgrymu darparu cyfleoedd blas ar waith ar-lein a fydd yn rhoi cipolwg i ddysgwyr o'r gyrfaoedd maent wedi'u dewis.
Mae cynnwys ar-lein yn golygu y gall dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw.

Mae *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*[23] (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008) yn cydnabod y bydd llawer o ddysgwyr yn dod yn gyflogwyr ac yn weithwyr hunangyflogedig a'i bod felly, yn bwysig cofio hyn wrth gynllunio unrhyw raglen gyrfaoedd ac annog dysgwyr i fod yn entrepreneuraidd.

Mae RSA[24] yn nodi bod celf a dylunio, TG, busnes, y gyfraith, iechyd a gofal cymdeithasol a'r celfyddydau perfformio yn aml yn cael eu hystyried yn bynciau 'wrth gefn' sy'n cael eu dewis gan ddysgwyr sydd heb lwybr pendant ar gyfer eu dyfodol; felly, efallai y bydd dysgwyr sy'n dilyn y cyrsiau hyn yn elwa ar gael mwy o gefnogaeth na'u cyfoedion.

**Hyfforddiant**

I fod yn effeithiol, mae angen i diwtoriaid ac aseswyr allu rhoi cyngor gwybodus a diduedd, teimlo'n gyfforddus wrth ddehongli a defnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a gwybod pryd i gyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth amgen. Mae RSA[25] yn pwysleisio'r angen i staff fod ar flaenau eu traed o ran datblygiadau yn yr economi leol a chenedlaethol i sicrhau bod darpariaeth yn cyfateb i anghenion cyflogwyr, ac i wneud yn siŵr bod cynnwys cyrsiau yn paratoi myfyrwyr ar gyfer yr hyn y byddant yn ei wynebu yn y gweithle. Mae dyddiau cwrdd i ffwrdd ar gyfer staff diwydiant yn gallu bod yn ffordd dda o gadw sgiliau a gwybodaeth yn 'ffres'. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol[26] ar gyfer datblygu gyrfa yn gallu bod yn lle defnyddiol i ddechrau wrth ganfod anghenion hyfforddiant.

# Cynllun gweithredu

- Adolygu gweithrediad *Gyrfaoedd a'r byd gwaith:fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed* [27], gan ddefnyddio arferion gorau ac adnoddau o ffynonellau eraill, e.e. *Penderfyniadau Gwybodus* (Estyn, 2012)[28] a Career learning for all[29].
- Cynnal dadansoddiad o'r bwlch sgiliau o ran sgiliau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad aseswyr, tiwtoriaid ac athrawon.
- Denfyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol[30] ar gyfer datblygu gyrfa er mwyn canfod a chynllunio gofynion staff, llunio disgrifiadau swydd, a chynllunio, cyflwyno a gwerthuso hyfforddiant.
- Hunanasesu ar sail Marc Gyrfa Cymru[31], Nod barcud Investors in Careers[32] a/neu'r Matrix Standard[33].
- Penodi llywodraethwr i arwain ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad ac ar ymgysylltu â chyflogwyr.
- Cael eich dysgwyr i sicrhau ansawdd eich adnoddau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.
- Defnyddiwch yr elusen Addysg a Chyflogwyr Inspiring the Future[34] i gysylltu â chyflogwyr a phobl o fyd gwaith ac i ysbrydoli dysgwyr.

# Adnoddau

- ***Complex needs, complex choices*** [35] (LSIS, 2012)
Rôl dysgu ar gyfer gyrfa, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn y sector sgiliau ac addysg bellach.
- ***When IAG grow up…*** [36] (National Union of Students, 2014)
Casgliad o sylwadau am wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd am yrfaoedd yn y Deyrnas Unedig.
- ***Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed***[37](Estyn 2015)
Mae'r adroddiad yn edrych ar ansawdd, cysondeb a dideueddrwydd y gwasanaethau cymorth y mae colegau addysg bellach yn eu cynnig i ddysgwyr.
- ***Penderfyniadau gwybodus***[38] (Estyn, 2012)
Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith.

## Llais y Dysgwr Cymru

Llais y Dysgwr Cymru yw arolwg blynyddol Llywodraeth Cymru o ddysgwyr ym maes addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i Oedolion. Mae'r arolwg, a lansiwyd yn 2013, yn ceisio barn dysgwyr am amryw o bynciau sy'n ymwneud â:

- gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- cymorth
- dysgu ac addysgu
- lles ac ymatebolrwydd
- Dysgu cyfrwng Cymraeg
- bodlonrwydd cyffredinol.

Rydym hefyd yn gofyn i ddysgwyr roi sylwadau ar beth maent yn ei hoffi orau am eu darparwr dysgu, a beth maent yn credu y gellid ei wella.

Mae crynodeb o'r arolwg ar gael yn http://llyw.cymru/llaisydysgwr

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i post16quality@cymru.gsi.gov.uk

1 *Complex needs, complex choices: The role of Career Learning, Information Advice and Guidance in the Further Education and Skills sector* (LSIS, 2012)
www.nus.org.uk/PageFiles/12238/2012_NUS_LSIS_Complex_needs_complex_choices.pdf

2 *Making the best match: Improving the quality of pre-course information, advice and guidance* (Yr Asiantaeth Dysgu a Datblygu Sgiliau, 2002)
https://core.ac.uk/download/files/161/4159524.pdf

3 *Barriers to participation in education and training* (Yr Adran Addysg, 2010)
www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/182518/DFE-RR009.pdf

4 *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014-2015* (Estyn, 2015)
www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%202016%20FINAL_WELSH_Accessible_WEB.pdf

5 *When IAG grow up... A collection of opinions on the state of careers information, advice and guidance in the UK* (Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr, 2014)
nussl.ukmsl.net/resourcehandler/7b9ebcec-dc86-41c5-8bf5-682736164572/

6 *Complex needs, complex choices: The role of Career Learning, Information Advice and Guidance in the Further Education and Skills sector* (LSIS, 2012)
www.nus.org.uk/PageFiles/12238/2012_NUS_LSIS_Complex_needs_complex_choices.pdf

7 *Not enough capital? Exploring education and employment progression in further education* (RSA, 2011)
www.thersa.org/discover/publications-and-articles/reports/not-enough-capital-exploring-education-and-employment-progression-in-further-education/

8 *All things being equal? Equality and diversity in careers education, information, advice and guidance* (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011)
www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/documents/research/71_careers_information.pdf

9 *All things being equal? Equality and diversity in careers education, information, advice and guidance* (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011)
www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/documents/research/71_careers_information.pdf

10 *Barriers to participation in education and training* (Yr Adran Addysg, 2010)
www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/182518/DFE-RR009.pdf

11 *Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16–19 oed* (Estyn, 2015)
www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Learner%20support%20services%20in%20further%20education%20colleges%20for%20learners%20aged%2016-19%20-%20ENG_0.pdf

12 *Learning to Learn in Further Education: A literature review of effective practice in England and abroad* (CfBT Education Trust, 2010)
www.campaign-for-learning.org.uk/cfl/assets/documents/Research/LearningToLearn_v5FINAL.pdf

13 *Not enough capital? Exploring education and employment progression in further education* (RSA, 2011)
www.thersa.org/discover/publications-and-articles/reports/not-enough-capital-exploring-education-and-employment-progression-in-further-education/

14 Future First http://futurefirst.org.uk/

15 Young Enterprise www.young-enterprise.org.uk/

16 Brightside www.thebrightsidetrust.org/

17 Horsesmouth www.horsesmouth.co.uk/

18 Science, Technology, Engineering and Mathematics Network (STEMNET) www.stemnet.org.uk/ambassadors/

19 *Complex needs, complex choices: The role of Career Learning, Information Advice and Guidance in the Further Education and Skills sector* (LSIS, 2012)
www.nus.org.uk/PageFiles/12238/2012_NUS_LSIS_Complex_needs_complex_choices.pdf

20 *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2008)
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/careers-world-of-work/?lang=cy

21 *Teaching, learning and assessment in further education and skills – what works and why* (Ofsted, 2014)
www.gov.uk/government/publications/teaching-learning-and-assessment-in-further-education-and-skills-what-works-and-why

22 *Quality, Choice and Aspiration: A strategy for young people's information, advice and guidance* (Department for Children, Schools and Families, 2009)
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130401151715/http://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/IAG-Report-v2.pdf

23 *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2008)
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/careers-world-of-work/?lang=cy

24 *Not enough capital? Exploring education and employment progression in further education* (RSA, 2011)
www.thersa.org/discover/publications-and-articles/reports/not-enough-capital-exploring-education-and-employment-progression-in-further-education/

25 *Not enough capital? Exploring education and employment progression in further education* (RSA, 2011)
www.thersa.org/discover/publications-and-articles/reports/not-enough-capital-exploring-education-and-employment-progression-in-further-education/

26 Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, *Beth yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol?*
http://nos.ukces.org.uk/Pages/cymraeg.aspx

27 *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2008)
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/careers-world-of-work/?lang=cy

28 *Penderfyniadau Gwybodus: Gweithredu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith* (Estyn, 2012)
http://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Informed%20decisions%3A%20The%20implementation%20of%20the%20Careers%20and%20the%20World%20of%20Work%20framework%20-%20October%202012.pdf

29 Foundation online learning https://www.foundationonline.org.uk/login/index.php

30 Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, *Beth yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol?* http://nos.ukces.org.uk/Pages/cymraeg.aspx

31 Gyrfa Cymru
https://www.careerswales.com/prof/server.php?show=nav.5906&outputLang=Tr1

32 Investor Careers, 'The Quality Award' www.investorincareers.org.uk/

33 Matrix http://matrixstandard.com/

34 Inspiring the Future, 'Inspiring the Future: securely connecting thousands of teachers with volunteers from the world of work; commiting an hour a year to speak about their job' www.inspiringthefuture.org/

35 *Complex needs, complex choices: The role of Career Learning, Information Advice and Guidance in the Further Education and Skills sector* (LSIS, 2012)
www.nus.org.uk/PageFiles/12238/2012_NUS_LSIS_Complex_needs_complex_choices.pdf

36 *When IAG grow up... A collection of opinions on the state of careers information, advice and guidance in the UK* (National Union of Students, 2014)
nussl.ukmsl.net/resourcehandler/7b9ebcec-dc86-41c5-8bf5-682736164572/

37 *Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16–19 oed* (Estyn, 2015)
www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Learner%20support%20services%20in%20further%20education%20colleges%20for%20learners%20aged%2016-19%20-%20ENG_0.pdf

38 *Penderfyniadau Gwybodus: Gweithredu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith* (Estyn, 2012)
http://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Informed%20decisions%3A%20The%20implementation%20of%20the%20Careers%20and%20the%20World%20of%20Work%20framework%20-%20October%202012.pdf

Digital ISBN 978 1 4734 5814 7

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2016
WG27860